


# Adolygiad Ysgolion Ardal Saltney a Brychdyn Dogfen Ymgynghori

Fersiwn i blant  
2023



# Pwy ydym ni?

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gyfrifol am yr holl ysgolion yn ein hardal.

Rydym ni'n rhan o dîm sy'n gweithio i'r Cyngor i gefnogi ysgolion.



# Ein Nodau

- Rhoi'r cyfle gorau i blant ddysgu mewn ysgolion ardderchog yn ein hardal.
- Darparu adeiladau ysgol diogel a chadarn.
- Gwneud yn siŵr fod arian ar gyfer plant ac ysgolion yn ein hardal yn cael ei wario'n deg.
- Rhoi cyfle i bawb leisio eu barn a gwrando ar safbwyntiau pawb am benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.



# Newidiadau

Nid yw bob amser yn bosibl i bob ysgol aros fel maen nhw ac ambell waith mae hyn yn golygu bod angen i'r Cyngor wneud rhai newidiadau pwysig.

Gall newidiadau helpu i roi'r cyfle gorau i bawb ddysgu, yn yr ysgol orau bosibl.



# Beth mae hyn yn ei olygu?

Rydym ni'n edrych ar **nifer** o ddewisiadau ar gyfer ysgolion yn yr ardal.

Dewis 1 – Gwneud dim. Bod yr ysgolion yn aros fel ag y maent a bod Cyngor Sir y Fflint a Llywodraeth Cymru'n talu i'w hatgyweirio, os yw'r arian ar gael.



# Beth mae hyn yn ei olygu?

Dewis 2 - Gwneud yr isafswm. Bod yr ysgolion yn aros fel ag y maent a bod Cyngor Sir y Fflint a Llywodraeth Cymru'n talu i'w hatgyweirio, os yw'r arian ar gael.



# Beth mae hyn yn ei olygu?

Dewis 2 - Cyngor Sir y Fflint a Llywodraeth Cymru i dalu i wneud rhai ysgolion yn ardal Saltney a Brychdyn yn fwy ac eu hailaddurno. Bydd pa ysgolion yn dibynnu ar nifer y plant ym mhob un a'r siawns y bydd yr ysgol yn llenwi.



# Beth mae hyn yn ei olygu?

Dewis 3 - Adeiladu ysgol ar gyfer plant 3-16 oed. Byddai Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yn uno ar un safle gan olygu bod un ysgol uwchradd ac un ysgol gynradd.

Bydd Ysgol Gynradd Brychdyn yn aros yr un fath.





# Beth mae hyn yn ei olygu?

Dewis 4 - Adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Dewi Sant ac uno Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood mewn ysgol newydd ar safle arall.

Bydd Ysgol Gynradd Brychdyn yn aros yr un fath.



# Beth mae hyn yn ei olygu?

Dewis 5 - Gwneud penderfyniad anodd i gau Ysgol Uwchradd Dewi Sant a darparu lle i ddisgyblion mewn ysgol uwchradd arall yn Sir y Fflint oherwydd bod niferoedd disgyblion yr ysgol yn isel ar hyn o bryd.

Byddai disgyblion Ysgol Uwchradd Dewi Sant yn symud i ysgol arall.

Mae'n bosibl y byddai ysgol gynradd newydd yn cyfuno Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yn cael ei hadeiladu ar safle Ysgol Uwchradd Dewi Sant.



# Pa mor hir y mae pethau'n cymryd?

6 Mehefin 2023

3 Gorffennaf 2023

Haf 2023

1. Bydd pobl yn dweud eu barn wrthym ni.

2. Byddwn ni'n casglu'r holl atebion ac yn dweud wrth bawb beth ydi'r prif sylwadau.

3. Bydd y Cyngor yn cynnal cyfarfod i benderfynu beth i'w wneud. Yna byddwn yn gadael i bawb wybod beth ydi'r penderfyniad.



# Eisiau gwybod mwy?

Os wyt ti eisiau mwy o wybodaeth,  
mae dogfen fwy ar gael ar y  
rhynggrwyd. Dos i:

<https://www.siryfflint.gov.uk/moderneiddioysgolion>




# Beth wyt ti'n ei feddwl?

Mae'n bwysig iawn ein bod yn siarad gyda llawer o wahanol bobl am y syniad yma, yn enwedig plant a phobl ifanc. Mae dy farn di yn bwysig i ni.

Yn y llyfryn yma mi fedri ysgrifennu unrhyw beth yr wyt eisiau ei ddweud wrthym ac unrhyw syniadau sydd gennyt ti.




# I ba ysgol wyt ti'n mynd rŵan a faint oed wyt ti?



Ysgrifenna dy atebion yn y blwch.




# Beth wyt ti'n ei feddwl o'r dewisiadau yr ydym yn eu hystyried?



Dyweda wrthym beth wyt ti'n ei feddwl trwy ysgrifennu dy atebion yn y blwch.



# Oes unrhyw beth arall yr wyt ti eisiau ei weld yn digwydd yn lle hyn?




Dyweda wrthym beth wyt ti'n ei feddwl trwy ysgrifennu dy atebion yn y blwch.





# Wyt ti eisiau dweud unrhyw beth arall?



Ysgrifenna dy atebion yn y blwch.



# Beth sy'n digwydd nesaf?

Postia dy lyfryn wedi'i lenwi atom erbyn **2 Gorffennaf 2023**. Yn anffodus, ni fyddwn yn gallu derbyn unrhyw beth y byddi yn ei anfon atom ni ar ôl y dyddiad hwnnw.

**Cyfeiriad:** Tîm Moderneiddio Ysgolion,  
Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, Sir  
y Fflint, CH5 3TX

Neu mi fedri e-bostio dy sylwadau i:  
[21stcenturyschools@flintshire.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@flintshire.gov.uk)



**Diolch yn fawr**

